Ysgol Tryfan

Gorffennaf 19, 2017

Diwedd Tymor yr Haf 2017 yn Ysgol Tryfan

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol arall brysur hoffwn ddymuno'n dda i'n disgyblion a'u teuluoedd dros wyliau'r haf. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Erbyn hyn mae disgyblion blynyddoedd 7 - 9 wedi derbyn adroddiad llawn ar eu cyrhaeddiad yn ystod y flwyddyn ac mae disgyblion blwyddyn 9 wedi derbyn eu Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Hefyd bydd disgyblion blynyddoedd 7 - 9 wedi cael adroddiad dwyieithog yn adrodd ar eu perfformiad yn y Profion Cenedlaethol Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhif. Gan fod disgyblion blwyddyn 10 eisoes wedi derbyn adroddiad llawn y tymor diwethaf byddant yn awr yn derbyn adroddiad cryno gyda graddau cyrhaeddiad a'u targedau. Hyderaf y bydd pob disgybl yn elwa o'r adroddiadau am yr hyn a gyflawnwyd eleni - ac eto'n gallu gosod targedau clir ar gyfer cynnydd pellach y flwyddyn nesaf.

Yr ydym eisoes wedi gyrru neges i rieni, ond hoffwn eich atgoffa y byddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion eleni ar **ddydd Mercher y chweched o Fedi 2017**. Rhennir y Calendr Ysgol yn llawn â chi ym mis Medi. Bydd y Calendr Ysgol hefyd wedi cael ei ddiweddaru'n fuan ar wefan yr ysgol - www.ysgoltryfan.org. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i'ch annog i ddilyn ein cyfrif Twitter (@ysgol_tryfan) er mwyn cael blas ar fywyd beunyddiol yr ysgol. Mae nifer o adrannau ysgol erbyn hyn hefyd yn trydar.

Hoffwn gadarnhau y bydd pris cinio ysgol yn codi ychydig ym mis Medi, gyda'r cinio llawn yn costio £2.50. Bydd rhestr lawn o brisiau'r ffreutur ar gyfer Medi 2017 ar y dudalen Rhieni > Llythyrau i Rieni ar wefan yr ysgol ym mis Medi.

Ar gychwyn gwyliau haf fel hyn, hoffwn erfyn arnoch fel rhieni i gydweithredu â ni fel ysgol a sicrhau fod eich plentyn yn dychwelyd atom ym mis Medi mewn gwisg ysgol gywir a chyflawn, gan gynnwys esgidiau du, ac na fydd ganddynt unrhyw dlysau amhriodol ac eithrio'r un 'styd' a ganiateir ym mhob clust. Y mae'r bartneriaeth gynhyrchiol hon rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol i lwyddiant pob disgybl.

Cyn cloi hoffwn gadarnhau y bydd canlyniadau arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael eu cyhoeddi ar fore Iau Awst 17 o 8:00 y bore ymlaen. Bydd canlyniadau TGAU ar gael i flwyddyn 11 wythnos yn ddiweddarach ar ddydd Iau Awst 24 am 8:00 unwaith eto. Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 hefyd erbyn hyn yn disgwyl canlyniadau TGAU ac oherwydd hynny rydym yn gwahodd disgyblion blwyddyn 10 i ddod i'r ysgol i gael eu canlyniadau pe dymunent. Bydd y canlyniadau ar gael i ddisgyblion blwyddyn 10 rhwng 10 o'r gloch y bore a 12.00 ar 24/08/17 er mwyn caniatáu i ni ddelio'n llawn gyda disgyblion blwyddyn 11 a'u hanghenion yn gyntaf. Bydd staff ar gael ar y dyddiau hyn i gynorthwyo ac i gynghori.

Felly hoffwn ddymuno haf hir, diogel a heulog i chi - ac edrychaf ymlaen yn arw at weld y disgyblion i gyd yn ôl gyda ni yn Ysgol Tryfan ar y chweched o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

Ysgol Tryfan

July 19, 2017

End of Summer Term 2017 at Ysgol Tryfan

Dear Parent / Guardian

At the end of another busy school year I would like to wish all our pupils and their families a very happy summer break. I would also like to thank you for your cooperation and support during the past year.

Recently Year 7-9 pupils have received a full report on their attainment during the year, and the year 9 pupils will have received their National Curriculum Levels at the end of Key Stage 3. Pupils in Year 7-9 will also have received a bilingual report on their performance in the National Reading (Welsh and English) and Numeracy Tests. Year 10 pupils received their full report last term; therefore they have now received an interim report with attainment grades and target grades. I hope that each individual pupil in school will benefit from the report based on this year's achievements and will also be able to set clear targets for further progress next year.

Please be reminded as parents that we open our doors to pupils at Ysgol Tryfan next term on **Wednesday the 6th of September 2017**. The School Calendar will be shared fully with you in September. The School Calendar will also be updated shortly on the school website. I would also like to take this opportunity to encourage you to follow our Twitter account (@ysgol_tryfan) in order to get a taste of various events at school. Many departments in school now have Twitter accounts also.

I would like to confirm that there will be a small increase in the prices in the school canteen in September. Therefore the full school meal will now cost £2.50. The full price list for our canteen is on the school website - Parents > Letters to Parents.

At the start of the summer holiday may I also appeal to all parents for their cooperation in ensuring that your child returns to school in September in full correct school uniform, including black shoes, and without any inappropriate piercing beyond the allowed one stud in each ear. This positive partnership between the school and the home is essential to the success of each pupil.

In closing, I would like to confirm that Advanced Subsidiary and Advanced Level examinations results will be announced on Thursday August 17th and will be available at the school from 8.00 a.m. onwards. GCSE results will be available to year 11 pupils a week later on Thursday August 24th, again from 8.00a.m. onwards. Many year 10 pupils are also awaiting GCSE results and because of this we also invite year 10 pupils to come to school for their results if they so wish. Please note that the results will not be available to year 10 pupils until 10a.m. on 24/08/17 to allow us to deal fully with year 11 pupils and their needs first. Staff will be available on these days to help and offer advice.

Therefore may I wish you a long, sunny and safe summer - and I look forward to seeing all the pupils back at Ysgol Tryfan with us on the 6th of September.

Yours sincerely

Gwyn Tudur
Headteacher

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur